CYNGOR CYMUNED PISTYLL
COFNODION CYFARFOD MISOL

DYDDIAD	**Nos Fawrth – 14eg o Ebrill, 2024**
AMSER	**7 y.h.**
LLEOLIAD	**Festri Capel Isa, Llithfaen**
CADEIRYDD	**Gethin Jones**

1.	**CROESO**
	Croesawodd y Cadeirydd Gethin Jones **(GJ)** bawb i'w gyfarfod cyntaf fel Cadeirydd. **YN BRESENNOL:** Sianelen Pleming **(SP);** Olwen Roberts **(OR);** William Jones **(WJ);** Gethin Jones **(GJ);** Lois Fychan **(LF)**; Y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG);** a'r clerc Gillian Thomas **(GT)**
2.	**YMDDIHEURIADAU**
	DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN Osian Hugh Williams **(OHW);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Derek Thomas **(DT);** Ynyr Ellis **(YE);** Emlyn Williams **(EW);**
3.	**CYFLWYNO A MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD EBRILL 2024**
	Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan LF gyda WJ yn eilio.
4.	**MATERION YN CODI**
	a) **LLWYBR I DRAETH PISTYLL** I'w drafod mis nesaf **b)** **MAINC LON CARNGUWCH** I'w drafod mis nesaf **c)** **CERBIAU ANWASTAD DROS FFORDD A RHES DAI PISTYLL** Y mater wedi cael ei adrodd I Ddŵr Cymru gan Briffyrdd Dwyfor **d)** **DWR AR Y FFORDD UWCHLAW MYNEDFA GWYNUS PISTYLL** Y mater wedi cael ei ychwanegu i raglen gwaith Priffyrdd Dwyfor **e)** **ARWYDD LON GROES** Cyngor Gwynedd wedi ail ymweld â'r safle. Yr arwydd erbyn hyn wedi ei ostwng yn is a threfniadau ar droed i'r postyn gael ei dorri yn daclus.
5.	**DATGAN DIDDORDEB**
	Dim yn cael ei ddatgan

6.	**DIWEDDARIADAU ASEDAU**
	Popeth mewn cyflwr derbyniol
7.	**CEISIADAU CYNLLUNIO**
	Dim i'w trafod
8.	**SEDD WAG - LLITHFAEN**
	Gyrrwyd gohebiaeth i Derek Thomas yn adrodd am ei lwyddiant, nid oedd yn gallu bod yn bresennol heno oherwydd salwch.
9.	**MYNWENT PISTYLL – TORIADAU GWAIR – CAIS GAN OW**
	<u>Cais gan OHW</u> *'Fel person fuodd yn torri'r fynwent i'r cyngor am 18 mlynedd ac wedi byw ym Mhistyll, rwyf yn ymwybodol faint o bobol sydd yn ymweld ag Eglwys Pistyll yn flynyddol. Teimlaf fod 2 neu 3 toriad yn gwbl annigonol, yn enwedig gan fod ochor sydd yn berchen i'r Eglwys yn cael ei thorri yn fisol ac yn cael ei chadw yn dwt a thaclus, mae llawer o bobol yn beirniadu'r Cyngor am nad yw ein hochor ni cael ei dorri'n rheolaidd.* *Fel y medrwch ddychmygu drwy ei adael i dyfu mae yna lawer mwy o waith i'r contractwr, hefyd am edrych yn flêr gan nad yw'n cael ei dorri ddigon aml. Drwy gael pris i'w dorri'n fisol drwy gyfnod yr haf, buasai yn llai o waith i'r contractwr a hefyd rhoi argraff dda inni fel cynghorwyr.* *Hyderaf ni fuasai'r pris o'i thorri yn fisol yn llawer mwy nac yw ar hyn o bryd gan fuasai llai o waith i'r contractwr'.* Yn dilyn trafodaeth ar ddau dendr cytunwyd cynnig y gwaith i. Hughes am doriadau misol Mai, Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi am £810
10.	**ADNEWYDDU YSWIRIANT Y CYNGOR**
	Adroddodd y clerc bod yswiriant y Cyngor wedi codi'n sylweddol eleni gan fod y cytundeb 3 blynedd bellach wedi mynd heibio. Cost am y flwyddyn yw £671.53 sydd yn chwyddiant o £150 i gost llynedd. Mae'r cwmni wedi cynnig cychwyn cytundeb arall am £654.05 am gyfnod o 3 blynedd arall Cynigiodd OR dderbyn y pris blynyddol o £671.53 eiliwyd gan SP
11.	**SAFLE WE'R CYNGOR**
	Bydd GJ yn rhannu costau creu gwefan newydd y mis nesaf
12.	**GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD (GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD A DIDDYMU) (ARDAL DWYFOR RHIF 8) 2024 – RHYBUDD 1AF**

	<u>LLITHFAEN</u> <u>Ffordd Dosbarth II – Ffordd y B4417</u>	
AZ128 (teil newydd)	Ar ochr ddeheuol y ffordd ar naill ochr i'w gyffordd â'r Ffordd Dosbarth III sy'n arwain at Lithfaen Isaf	DIM AROS AR UNRHYW ADEG
AZ128 (teil newydd)	Ar ochr ddeheuol y ffordd o'i gyffordd gyda'r Ffordd Dosbarth III sy'n arwain at Lithfaen Isaf gan deithio mewn cyfeiriad dwyreiniol am bellter o oddeutu 12 metr	AROS CYFYNGEDIG 45 MUNUD - DIM

			Y clerc i ofyn ac mai Llithfaen Bach yw hwn	DYCHWELYD 1 AWR 8yb – 7yh

13.	**CAIS AM DWMPATHAU CYFLYMDER I BISTYLL GAN Y TRIGOLION**
	Adroddodd y clerc am ohebiaeth gan un o drigolion Pistyll yn adrodd am gôr yrru a chais am gefnogaeth y Cyngor parthed twmpathau cyflymder. Cytunodd yr aelodau.
14.	**JG - CYFLYMDRA 20MYA**
	Adroddodd JG bod pobol wedi ymgyrchu i newid y ddeddf. SP yn cynnig efallai dylai ei godi mewn rhannau o Lithfaen gan ei fod yn lôn hir. Cefnogi'r ugain yn saff ond angen trafodaeth bellach Y clerc i ofyn am arwydd 20 ar lon y Nant
15.	**JG - AMBIWLANS AWYR CYMRU**
	Cais i lythyru gyda'r Ambiwlans awyr yn gwrthwynebu eu penderfyniad.
16.	**JG – GWASANAETH BYSYS**
	Adroddodd JG ân sibrydion bod Gwasanaeth bysus yn dod i ben, roedd y Cyngor Sir yn gwadu - amserlen ddrafft heb ei gohebu eto gwasanaeth yn cael ei adrefnu ond yn parhau.
17.	**LON GROES, PISTYLL**
	Roedd GJ wedi gohebu a'r Cyngor Sir yn adrodd – Ei fod wedi gwneud ymchwil ar leoliad cychwyn a darfod y lôn ac wedi darganfod y canlynol. Lôn Groes ydi'r unig lôn ym Mhen Llŷn sydd yn mynd un ochr i'r penrhyn i'r llall. Mae hi'n croesi wrth Felin Pemprys am Lannor heibio Mela a chroesi lôn ar gyrion Efailnewydd a dal i fynd ar hyd y penrhyn. Mae pobl Llannor yn galw'r lôn sydd mynd o Lannor i'r brif ffordd ar Lon Groes. Bosib gosod yr arwydd ar ben y bôn can wellt ar waelod yr allt ym Mhistyll wrth ymyl Bryn Hyfryd sef y bôn can ar y chwith wrth fynd fynnu'r lôn o Bistyll. Ac yr arwydd pen arall ger ceg lon y brif ffordd rôl pasio Melin Pemprys plîs. Yn ddelfrydol fysai'n grêt gallu cael arwydd arall yn ganol yn rwla hefyd gan fod y lôn môr hir. Atodaf fap isod i ddangos y lleoliadau i osod yr arwyddion. Yn ddelfrydol bysa cael y 3 arwydd yn grêt ond os mai dim ond 2 rydym am gael arwydd 1 a 3 sydd ei angen.
18.	**CAIS AM NAWDD GAN BWYLLGOR Y CAE CHWARAE LLITHFAEN**
	Derbyniwyd gohebiaeth gan Bwyllgor y Cae Chwarae yn gofyn i'r Cyngor ymrwymo i gyfrannu £1500 yn flynyddol tuag at gostau cynnal a chadw'r cae, bydd hyn cynnwys torri gwellt/strimio; asesiad risg ac yswiriant. Cynigiodd OR eu cefnogi am £910 i dalu'r yswiriant yn unig am eleni, eiliodd LF
19.	**CAIS AM GEFNOGAETH GAN GYNGOR TREF NEFYN AC YMATEB I LYTHYR CYNGOR TREF NEFYN GAN DYFRIG SIENCYN**
	Cais am gefnogaeth parthed bwriad y Cyngor Sir i wario £1 miliwn ychwanegol ar 67 o geir trydan dros y ddwy flynedd nesaf gan Gyngor Tref Nefyn. Yn dilyn trafodaeth ar ymateb Dyfrig Siencyn cytunwyd gefnogi'r gwrthwynebiad.

20.	**CLWB CAR TRYDAN PEN LLŶN (EV CLUB)**
	Adroddodd y clerc am fwriad i sefydlu Clwb Car Trydan, i'w logi yng Nghongl Meinciau, Botwnnog. Gallai roi opsiwn trafnidiaeth wyrddach, hyblyg a blaengar i chi am bris rhesymol! Mae sefydlu hybiau trafnidiaeth wyrdd yn un o'r gweithredoedd a gymeradwywyd gan gynulliadau newid hinsawdd Wyrdd Ni Pen Llŷn yn ystod 2022/23. Mae angen o leiaf 20 o ymatebion cadarnhaol arnynt i gyfiawnhau symud ymlaen i'r cam nesaf. Maent hefyd angen grŵp bach o wirfoddolwyr i helpu i gael hyn i ddigwydd. Oes bydd yr aelodau gyda cwestiynau pellach bydd modd cysylltu gyda Gwyrdd Ni Pen Llŷn: dafydd.rhys@ynnillyn.cymru / 07887954301 Dim sylwadau
21.	**DIFFIBLWR PISTYLL**
	Disgwyl anfoneb gosod polyn
22.	**Y GANOLFAN, LLITHFAEN / LES Y GANOLFAN**
	Rhannodd y clerc Les y Ganolfan a'r Is brydles i'w arwyddo.
23.	**MATERION LLEOL**
	a) **<u>GJLJ – PONT LLITHFAEN</u>** Adroddodd y clerc gais gan GJLJ, roedd dau ddamwain wedi digwydd yn ddiweddar ar y bont. Nid oedd GJLJ yn ymwybodol os oedd y rhain wedi eu hadrodd i'r heddlu. Argymell gofyn i'r Cyngor Sir lledu'r lon. **b)** **<u>OW – GORDYFIANT YM MHISTYLL</u>** Cais gan OW i ohebu gyda'r Cyngor Sir parthed gordyfiant at hyd balmentydd a'r ffordd ym Mhistyll **c)** **<u>OW – FFOES GER CAE CHWARAE PISTYLL</u>** Dymunodd OW hysbysebu'r Cyngor i adrodd ei fod wedi cymryd cyfrifoldeb am ran o ffoes ger y Cae Chwarae ym Mhistyll. Roedd wedi gofyn i'r Cyngor Sir rhoi sylw iddi sawl gwaith ond bod cyfrifoldeb yn cael ei gwestiynu. Bydd yn paratoi gwaith torri gordyfiant ar gost ei hun. **d)** **<u>SP - GÔR YRRU AR LON RHOSYDD</u>** Y clerc i wneud cais am arwyddion Not Suitable for heavy vehicles
24.	**HYFFORDDIANT**
	Gan mai dim ond 2 fodiwl oedd yn cael ei gynnig yn Gymraeg roedd JG wedi llythyru ac Un Llais i gwyno.
25.	**<u>GOHEBIAETH A GWYBODAETH</u>**
	a) **<u>ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (ANNE) LLŶN, Â'R GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY</u>** **b)** **<u>CYFARFOD ARDAL NI 2035 - DALGYLCH PWLLHELI DDYDD MAWRTH, MEHEFIN 18FED 2024 AM 5 O'R GLOCH YN HWB CYMUNEDOL CLWB PÊL DROED PWLLHELI</u>** **c)** **<u>CLWB CAR TRYDAN PEN LLŶN (EV CLUB)</u>** **d)** **<u>BWLETIN NEWYDDION</u>** **e)** **<u>CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL AHNE LLŶN - 4.00PM, DYDD IAU, Y 27AIN O FEHEFIN, 2024 AR ZOOM.</u>** f) **<u>CORFF GWARCHOD NEWYDD Y GIG</u>**

26.	CYLLID

+	**CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2024**		**£ 17,184.69**
+	**CYFRIF CADW MAWRTH 2024**		**£ 2,717.05**
-	**LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC**		**£ 3,936.75**
+	**GWARGED 2024/ 2025**		**-£ 2,228.66**
=	**CRONFA'R CYNGOR**	=	**£ 13,736.33**

I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC

CYFRIF CYFREDOL - 01 o Ebrill I 30 o Ebrill 2024

Balans Agoriadol		**£ 17,184.69**
Derbyniadau	+	£ 41.00
Gwariant	-	£ 978.00
Balans Cau	=	**£ 16,234.91**

CYFRIF CADW - 07 Chwefror i 6ed o Fawrth 2024

Balans Agoriadol		**£ 2,717.05**
Derbyniadau	+	£ -
Gwariant	-	£ -
Balans Cau	=	**£ 2,717.05**
	=	**£ 18,951.96**

LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC

-			
-	Un Llais Cymru	**201306**	£ 123.00
-	Cyfeillion Eglwys Carnguwch	**201297**	£ 400.00
-	Cylch Meithrin Pentre-uchaf	**201298**	£ 200.00
-	Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl	**201299**	£ 200.00
-	Ambiwlans awyr Cymru	**201300**	£ 500.00
-	Hafod Ceiri	**201309**	£ 800.00
-	Llythyr Llithfaen	**201301**	£ 320.00
-	Aelwyd Gwrtheyrn	**201302**	£ 200.00
-	Urdd Llithfaen	**201303**	£ 200.00
	Un Llais Cymru	**201307**	£ 38.00
-	Gŵyl Ifan	**201308**	£ 700.00
		=	**£ 3,681.00**

LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO

-	Cae Chwarae Llithfaen	**201304**	
-	Clear Council Insurance	**201312**	671.53
-	Gillian Thomas	**201313**	293.10
		=	**£ 964.63**

	SYDD YN CYTUNO GYDA CHRONFA'R CYNGOR	=	**£ 14,306.33**
	- **LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (LL)**	-	**£ 251.90**
	- **LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (P)**		**£ 290.00**
	= **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON**	=	**£ 13,764.43**
27.	**CYFARFOD NESAF Y CYNGOR**		
	11eg o Fehefin am 7 yng Nghapel Isaf, Llithfaen		